

**LLYWODRAETH CYMRU
DEDDF HARBYRAU 1964 (WEDI'I DIWYGIO)**

**GORCHYMYN ADOLYGU ARFAETHEDIG (CAU
DOC TYWYSOG CYMRU) ABERTawe 202[0]**

**DATGANIAD YN CEFNOGI CAIS AM
ORCHYMYN GAN:
CYMDEITHAS PORTHLADDOEDD PRYDAIN**

1.	CYFLWYNIAD.....	3
2.	CYMDEITHAS PORTHLADDOEDD PRYDAIN A DOC TYWYSOG CYMRU	3
3.	COD DIOGELWCH MOROL Y PORTHLADD A'R CYNLLUNIAU MOROL	4
4.	Y DDEDDF HARBYRAU 1964.....	5
5.	ANGEN A CHYFIAWNHAD DROS GAH.....	7
6.	CASGLIAD	10

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â chais gan Gymdeithas Porthladdoedd Prydain ("CPP") ar gyfer Gorchymyn Adolygu Harbwr (Cau Doc Tywysog Cymru) Abertawe [202[X] ("y GAH"). CPP yw'r awdurdod harbwr statudol ar gyfer Porthladd Abertawe a Phorthladd Tywysog Cymru oddi fewn i'r Porthladd.

1.2 Mae'r cais, a wnaed mewn llythyr i Weinidogion Cymru dyddiedig 2^{ail} Medi 2020 yn cynnwys:

- (a) 6 o gopïau o'r GAD drafft;
- (b) 6 o gopïau o'r cynllun y cyfeirir ato yn y GAH
- (c) 6 o gopïau o'r datganiad hwn;
- (d) Y ffi am y cais, a dalwyd trwy BACS, yn y swm o £4,000.00;
- (e) Cyfieithiad Cymraeg o'r GAH, ynghyd â
- (f) Copïau o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

Deddf Harbwr Abertawe 1874;

Deddf Harbwr Abertawe 1894;

Deddf Harbwr Abertawe 1901.

1.3 Mae'r cais am orchymyn adolygiad harbwr i'w wneud o dan y pwerau a ganiateir gan adran 14 o'r Ddeddf Harbyrau 1964 ("Deddf 1964") sydd yng Nghymru wedi'i throsglwyddo i weinidogion Cymru gan Ddeddf Cymru 2017

1.4 Mae'r GAH yn darparu ar gyfer cau Doc Tywysog Cymru. Mae'n darparu ar gyfer diddymu cyfrifoldebau statudol CPP mewn cysylltiad â'r doc ac atal pob hawl mordwyo mewn cysylltiad â'r doc ac yn gwaredu'r rhwymedigaeth i gynnal mynediad mordwyol i'r doc o weddill Porthladd Abertawe. Mae'r cau yn angenrheidiol i gefnogi'r rheolaeth o Borthladd Abertawe mewn modd effeithiol ac economaidd at ddiben adran 14(2) (b) o'r Ddeddf Harbyrau ac yn unol â'r argymhelliad yng Nghod Diogelwch Morol Porthladd.

2. CYMDEITHAS PORTHLADDOEDD PRYDAIN A DOC TYWYSOG CYMRU

- 2.1 CPP yw'r awdurdod harbwr statudol ar gyfer Porthladd Abertawe, y mae Doc Tywysog Cymru yn ffurfio rhan ohono, yn ogystal ag ar gyfer nifer o borthladdoedd eraill o amgylch y Deyrnas Unedig. Cafodd ei ailgyfansoddi o dan y Ddeddf Drafnidiaeth 1981 fel olynydd statudol Bwrdd Dociau Trafnidiaeth Prydain a gafodd ei greu yn 1962 pan ddiddymwyd Comisiwn Trafnidiaeth Prydain (a sefydlwyd yn ei dro yn 1947 yn dilyn cenedlaetholi'r porthladdoedd o dan y cwmnïau rheilffyrdd a chamlesi). Mae'r ymrwymïadau a etifeddwyd gan yr harbwr o Fwrdd Dociau Trafnidiaeth Prydain yn cynnwys pwerau a dyletswyddau a bennwyd gan ddeddfwriaeth leol yng nghyswllt Porthladd Abertawe.
- 2.2 Cafodd Doc Tywysog Cymru ei awdurdodi'n wreiddiol gan Ddeddf Harbwr Abertawe 1874. Cafodd ei ymestyn gan Ddeddf Harbwr Abertawe 1894 a rhoddwyd cyfrifoldebau pellach gan Ddeddf Harbwr Abertawe 1901. Cafodd y swyddogaethau yn gysylltiedig â'r doc, a roddwyd yn wreiddiol i Ymddiriedolwyr Harbwr Abertawe, eu cyflwyno wedyn i Gwmni Rheilffordd Great Western cyn eu cyflwyno i Gomisiwn Trafnidiaeth Prydain fel y nodwyd uchod.

3. COD DIOGELWCH MOROL Y PORTHLADD A CHYNLLUNIAU MOROL

- 3.1 Fel awdurdod harbwr ar gyfer Porthladd Abertawe, mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladd (Tachwedd 2016) a gyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth a'i gymeradwyo gan y gweinyddiaethau datganoledig ("y Cod") yn berthnasol i GPP yn ogystal â'r holl awdurdodau harbwr statudol a chyfleusterau morol eraill, angorfeydd a therfynfeydd yn y DU. Mae'r Crynodeb o'r Cod gweithredol yn esbonio hynny:

"Cafodd y Cod ei ddatblygu i wella diogelwch yn amgylchedd morol y porthladd ac i alluogi sefydliadau i reoli eu gweithrediadau morol yn unol â safonau a gytunwyd yn genedlaethol. Mae'n darparu mesur sy'n gwneud mudiadau yn atebol am gyflawni eu pwerau statudol a dyletswyddau i gynnal harbyrau neu gyfleusterau yn ddiogel ac effeithiol. Mae hefyd yn darparu safon er mwyn gwerthuso polisïau, gweithdrefnau a pherfformiad sefydliadau. Mae'r Cod yn disgrifio swyddogaeth aelodau bwrdd, swyddogion a phersonél allweddol mewn perthynas â diogelwch mordwyo ac yn crynhoi prif ddyletswyddau statudol a phwerau awdurdodau harbwr. Mae'r Cod wedi'i lunio i leihau'r risg o ddigwyddiadau oddi fewn i amgylchedd morol yr harbwr ac i egluro cyfrifoldebau sefydliadau o fewn ei gwmpawd."

- 3.2 Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau harbwr adolygu eu pwerau a'u hawdurdodaeth a chymryd ystyriaeth o'r mecanwaith amrywiol megis gorchmynion harbwr sydd ar gael i ddiwygio pwerau statudol oddi fewn i ddeddfwriaeth leol awdurdod. Yn unol â'r anghenraid hwn mae CPP wedi adolygu ei bwerau ym Mhorthladd Abertawe ac wedi dod i'r casgliad nad yw'n angenrheidiol parhau i gynnal Doc Tywysog Cymru at ddefnydd y porthladd a'i bod yn ddymunol er lles diogelwch i gau'r mordwyo rhwng y porthladd gweithredol i ardal ddŵr nad yw mwyach yn cael ei gynnal i'r diben hwnnw.
- 3.3 Mae'n ofynnol i awdurdodau harbwr yn ôl adran 58 o'r Ddeddf Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 i gymryd sylw o'r datganiad Polisi Morol a chynlluniau morol perthnasol wrth benderfynu. Nid yw'r GAH yn awdurdodi'r un datblygiad ac ni ystyrir ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Datganiad Polisi Morol na'r un polisi sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y cynllun morol perthnasol a luniwyd at ddiben adran 51 o'r Ddeddf Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Ond trwy ryddhau tir nad oes mwyach ei angen ar gyfer defnydd gweithredol porthladd, effaith y GAH fyddai i alluogi cyflawni amcanion 1 a 2 y cynllun, h.y. cefnogi gwelliant cynaliadwy ardaloedd morol Cymru, cyfrannu at economi Gymreig ffyniannus trwy annog gweithgareddau cynhyrchol economaidd a busnesau cynaliadwy, ac sy'n gwneud elw sy'n creu cyflogaeth dros amser hir ar gyfer pob gallu.

4. DEDDF HARBYRAU 1964

- 4.1 Mae adran 14 o Ddeddf 1964 yn caniatáu pwerau gorchymyn o dan yr adran honno (adwaenir fel gorchymyn adolygu harbwr) mewn perthynas â harbwr sy'n cael ei wella, ei gynnal neu ei reoli gan awdurdod harbwr wrth ymarfer a gweithredu pwerau statudol a dyletswyddau er mwyn cyflawni'r oll neu unrhyw amcan a nodir yn Atodlen 2 o Ddeddf 1964. Mae'r materion sydd wedi'u gosod allan yn Atodlen 2 o Ddeddf 1964 yn cynnwys, yn benodol, ym mharagraff 6: *"Gosod (naill ai at holl ddibenion neu ddibenion cyfyngedig) y cyfyngiadau hynny y rhoddir i'r awdurdod awdurdodaeth neu newid (naill ai at holl ddibenion neu ddibenion cyfyngedig) cyfyngiadau o'r fath yn unol â'r hyn a gytunwyd cynt."*
- 4.2 Mae adran 14(2)(a) o Ddeddf 1964 yn ei gwneud yn ofynnol i anfon cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru gan yr awdurdod sy'n ymwneud â gwella,

cynnal neu reoli'r harbwr o dan sylw ac mae adran 14(2)(b) yn darparu rheidrwydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau eu bod wedi eu:

“bodloni bod llunio'r gorchymyn yn ddymunol er lles sicrhau gwelliant, cynnal neu reoli'r harbwr mewn modd effeithiol ac economaidd neu hwyluso cludiant effeithiol ac economaidd o nwyddau neu deithwyr ar y môr neu er lles defnydd hamdden o longau môr.”

4.3 Mae adran 14(2B) o Ddeddf 1964 yn darparu:

“Does dim yn isadran (2)(b) o'r adran fydd yn atal llunio gorchymyn ar gyfer hwyluso —

(a) cau rhan o'r harbwr,

(b) lleihau'r cyfleusterau fydd ar gael yn yr harbwr, neu

(c) gwaredu eiddo nad oes ei angen at amcanion yr harbwr,”

os yw'r Gweinidog priodol wedi'i fodloni bod llunio'r gorchymyn yn ddymunol ar seiliau heblaw am y rheiny nodwyd yn yr isadran honno.”

4.4 Am nad yw hwn yn gais am orchymyn adolygu harbwr sydd, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, yn awdurdodi prosiect (oddi fewn ystyr paragraff 1 o Atodlen 3 o Ddeddf 1964), nid yw hysbysiad rhag blaen i Weinidogion Cymru o dan baragraff 3(a) o Atodlen 3 Deddf 1964 yn ofynnol. Ond ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru ynghylch y cynigion.

4.5 Mae'r cais am GAD o dan adran 14 o Ddeddf 1964 yn bodloni'r amodau a osodir allan yn yr adran honno. Mae cau'r harbwr oddi fewn i'r amcanion a osodir allan ym mharagraff 6 o atodlen 2 o ran newid terfynau'r harbwr. Yn ychwanegol, mae'r cais yn bodloni gofynion:

(a) adran 14(1) o Ddeddf 1964 am iddo gael ei lunio mewn perthynas â harbwr sy'n cael ei wella, ei gynnal neu ei reoli gan awdurdod harbwr wrth iddo weithredu a chyflawni ei bwerau statudol a'i ddyletswyddau at ddibenion cyflawni amcanion oddi fewn Atodlen 2 o'r Ddeddf.

(b) adran 14(2) o Ddeddf 1964 am fod:

(i) y cais wedi ei lunio ar gais ysgrifenedig awdurdod harbwr sy'n ymwneud â gwella, cynnal neu reoli'r harbwr, ac yn ogystal

- (ii) mae llunio'r GAH yn ddymunol er lles sicrhau gwelliant, cynnal neu reoli'r harbwr mewn modd effeithiol ac economaidd,

ac i'r graddau nad yw adran 14(2)(b) wedi'i fodloni beth bynnag, mae adran 14(2B) yn berthnasol yn yr achos hwn am fod llunio'r gorchymyn hefyd yn ddymunol ar seiliau heblaw am ddibenion sicrhau gwelliant, cynnal neu reoli'r harbwr mewn modd effeithiol ac economaidd.

5. ANGEN A CHYFIAWNHAD DROS GAH

- 5.1 Mae Doc Tywysog Cymru yn rhan o gynllun gwreiddiol Doc Abertawe. Yn ystod ei hanes mae wedi gwasanaethu allforio mineralau wedi'u cloddio'n lleol megis glo a metalau. Mewn dull tebyg i lawer o ddociau cyffelyb mae Doc Tywysog Cymru wedi gweld diweddu allforio deunyddiau crai. Mewn cyfnod diweddar bu'r doc yn gysylltiedig â mewnforio agregau wedi'u carthu o'r môr ond mae'r gweithgaredd hwn bellach wedi'i adleoli i gyfleusterau eraill mwy addas yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r ffactorau hyn yn cyfuno gyda chyfyngiadau ffisegol Doc Tywysog Cymru (yn benodol, yr angen i sicrhau mynediad i'r Doc trwy fordwyo ar hyd y llwybr cyfathrebu cul) a'r llaweroedd o gyfleusterau porthladd mwy addas sydd ar gael oddi fewn gweddill y Porthladd ac yn lleol, gan ei gwneud yn annhebygol y bydd yna fyth angen am y cyfleusterau hynny yn y dyfodol. Yn ychwanegol, cafodd y tir gweithrediadau porthladd sy'n amgylchynu Doc Tywysog Cymru ei werthu i Lywodraeth Cymru yn 2002 sy'n ychwanegu at y ffaith na fyddai gan y doc ddefnydd fel porthladd gweithredol na galw am gyfleuster o'r fath yn y dyfodol. Ar hyn o bryd does dim defnydd o'r doc ar gyfer amcanion porthladd a'r unig ddefnydd cyfredol yw ar gyfer amcanion gweithgareddau chwaraeon dŵr, defnydd nad yw'n ymwneud â phorthladd ac na chaiff ei effeithio gan gau'r doc.
- 5.2 Pan gafodd tir gweithrediadau'r porthladd ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru yn 2002 cafodd dyfroedd a muriau Doc Tywysog Cymru eu cynnwys mewn opsiwn o blaid Llywodraeth Cymru y maen nhw nawr am ei gymryd. Mae'r opsiwn wedi'i briodoli ar GAH llwyddiannus i waredu dyfroedd o Ddoc Tywysog Cymru o'r hyn a fydd yn weddill o'r Porthladd gweithredol.

- 5.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhannau sylweddol o'r tir oddi amgylch Doc Tywysog Cymru er budd cyhoeddus. Bydd y GAH arfaethedig yn hwyluso datblygiad tebyg pellach gan fod o fudd o ran defnydd tir a hamdden o ddyfroedd Doc Tywysog Cymru.
- 5.4 Mae cau'r doc yn ddymunol er lles rheolaeth effeithiol ac economaidd y porthladd am ei fod yn gwaredu rhwymedigaeth i gynnal cyfleuster oddi fewn i'r porthladd nad oes angen amdano, ac o ran lles cyhoeddus ehangach bydd yn caniatáu defnydd mwy cynhyrchiol o'r tir.
- 5.5 Byddai'r GAH yn awdurdodi cau Doc Tywysog Cymru ac yn darparu ar gyfer iddo beidio â bod yn rhan o Borthladd Abertawe. O ganlyniad i hyn, byddai'r GAH hefyd yn dileu hawliau mordwyo oddi fewn i'r doc ac yn darparu ar gyfer diddymu'r holl ddyletswyddau ac ymrwymadau a osodwyd ar Gymdeithas Porthladdoedd Prydain o ran y doc. Byddai'r GAH hefyd yn darparu pwerau i waredu llongau o Ddoc Tywysog Cymru i alluogi cau parhaol. Gosodir esboniad am yr angen am bob un erthygl sylweddol o'r GAH isod.

Erthygl 3 (Cau Doc Tywysog Cymru)

- 5.6 Mae'r erthygl yn awdurdodi cau Doc Tywysog Cymru ac yn darparu ar gyfer adeg y cau yr hyn fydd cyfrifoldebau CPP, o dan y ddeddfwriaeth sy'n awdurdodi'r doc neu yn ymwneud ag ef, i'w diddymu. Mae'r erthygl hefyd yn dileu unrhyw hawl mordwyo yn y doc yn ogystal â'r ddyletswydd ar CPP i gynnal y llwybr mordwyo sydd ar hyn o bryd yn darparu mynediad i'r doc o Ddoc y Brenin.
- 5.7 Fel esboniwyd uchod nid yw'r doc yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithrediadau llongau. Nid yw'r tir oddi amgylch y Doc mwyach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithrediadau llongau. Nid yw'r tir oddi amgylch y Doc mwyach yn dir gweithrediadau porthladd ac nid yw mwyach yn rhan o gyfrifoldeb CPP. Mae dyfroedd Doc Tywysog Cymru ar hyn o bryd yn gyffiniol â Doc y Brenin a Doc y Frenhines a fydd yn parhau'n borthladd gweithredol. Bwriedir cyflawni cau ffisegol rhwng Doc Tywysog Cymru a Doc y Brenin er mwyn diogelu'r gweddill o weithrediadau porthladd Abertawe rhag canlyniadau anfwriadol datblygu posib o'r tir oddi amgylch Doc Tywysog Cymru, a allai effeithio ar gronïad a diogelu amgylcheddol yr hyn

sy'n weddill o Borthladd Abertawe. Ni fydd y GAH yn awdurdodi'r cau ffisegol a bydd hwn yn destun caniatâd cynllunio ar wahân y gofynnir amdano gan yr awdurdod perthnasol pe bai yna ddatblygiad ar y gweill.

Erthygl 4 (Diddymu deddfwriaeth leol)

- 5.8 Mae'r erthygl yn darparu ar gyfer y ddeddfwriaeth leol a awdurdododd Doc Tywysog Cymru (yn cynnwys y cytundebau atodwyd i'r ddeddfwriaeth) neu fel arall sy'n ymwneud ag ef, i'w ddiddymu. Mae hyn yn dilyn o erthygl 3 sy'n gwaredu'r cyfrifoldebau mewn perthynas â'r doc. Mae'r erthygl yn gwahardd diddymu'r darpariaethau a awdurdododd dargyfeirio dŵr i ddociâu Abertawe. Mae angen hynny fel y bo dyfroedd Doc Tywysog Cymru yn parhau o dan reolaeth o ran cyfnewid dŵr ac ansawdd y dyfroedd oddi fewn i Ddoc Tywysog Cymru. Bydd gan y cau parhaol arfaethedig rhwng Doc Tywysog Cymru a Doc y Brenin gynllun cwlfer mecanyddol y bydd yn bosibl ei gau wedi'i sefydlu yn y rhan o Ddoc y Brenin sy'n parhau'n borthladd gweithredol. Bydd angen cadw pwerau i ddargyfeirio dŵr i mewn ac allan o Ddoc Tywysog Cymru er mwyn galluogi'r cyfleuster hwn i weithredu.
- 5.9 Daw hyn o dan gwmpawd adran 14(3) o Ddeddf 1964 am ei fod yn ddiddymiad o ddeddfwriaeth leol sy'n dilyn darpariaethau eraill y Gorchymyn. Fel arall mae hefyd yn gweddu fel rhan o adran 14 (2A) fel diddymiad deddfwriaeth leol nad yw'n angenrheidiol.

Erthygl 5 (Rhybudd o gau a gwaredu llongau o Ddoc Tywysog Cymru) ac Erthygl 6 (Ynghylch llongau yn mynd i mewn i Ddoc Tywysog Cymru)

- 5.10 Yn dilyn penderfyniad cadarnhaol o'r GAH a dileu'r pwerau presennol dros ddyfroedd, bydd angen pwerau i gyfeirio a gwaredu llongau o Ddoc Tywysog Cymru er mwyn cyflawni'r cau parhaol o'r doc sydd ei angen. Mae erthygl 5 yn darparu ar gyfer rhoi rhybudd ymlaen llaw bod y doc i gael ei gau ac yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw longau fydd yn y doc gael eu gwaredu. Rhoddir pwerau i CPP i waredu unrhyw longau fydd heb eu symud erbyn y dyddiad hwnnw.
- 5.11 Mae erthygl 6 yn cynnwys pŵer cyffelyb i alluogi CPP i waredu unrhyw longau fydd yn dod i mewn i'r doc wedi dyddiad y cau statudol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn gallu gwaredu unrhyw longau a allai ddigwydd fynd i mewn i'r doc rhwng y cau statudol a'r cau ffisegol.

- 5.12 Mae'r ddwy ddarpariaeth oddi fewn i gwmpawd adran 14(3) Deddf 1964 fel darpariaethau ychwanegol sy'n ofynnol neu yn hwylus at ddiben y GAH.

6. CASGLIAD

Am y rhesymau a esbonnir uchod ystyrir bod cau'r doc ynghyd â darpariaeth ychwanegol ac ôl-ddilynol y GAH yn ddymunol er mwyn sicrhau rheolaeth o'r harbwr mewn modd effeithlon ac economaidd gan fodloni gofynion Adran 14(2)(b) o Ddeddf 1964 yn ogystal â / neu ofynion adran 14(2B) ac yn ddymunol o ran diddordeb cyhoeddus cyffredinol.